


# Cynllun dŵr Llyn y Fan Fach

**Cyflenwad dŵr ar gyfer ardal wledig Llanelli.**

Yn ystod blynyddoedd cynnar yr 20fed Ganrif, roedd Llanelli'n wynebu problem fawr-Dŵr! Doedd dim dŵr mewn pibellau yn cyrraedd yr ardal a doedd ffynhonnau lleol ddim yn darparu digon o ddŵr i bobl. Roedd y boblogaeth wedi codi 34% o 1901-1911 felly roedd y galw yn cynyddu'n gyflym.

Dechreuodd y cyngor lleol chwilio am atebion. Awgrymodd ficer Pen-bre lyn yn agos at Landdeusant ble roedd e wedi bod yn weinidog yn flaenorol.

Roedd Llyn y Fan Fach yn llyn rhewlifol dros 10 milltir o Lanelli. Anfonwyd tirfesuryddion i archwilio a fyddai'n ddewis ymarferol neu beidio.

*'Mae Llyn y Fan fel pe bai'n sefyll ar ei ben ei hun yn y cae.' 'Ni fydd unrhyw ffynhonnell arall yn ateb gofynion yr achos.'*








***'Cyfaint y llyn ar y lefel yr oedd ar 28 Medi 1911, oedd 1771/2 miliwn galwyn.'***

Penderfynwyd y byddai Llyn y Fan Fach yn ffynhonnell ddelfrydol o ddŵr ar gyfer ardal wledig Llanelli, felly cymeradwywyd y prosiect ym 1912 gan ddechrau ym 1914 ar ôl dod o hyd i gontractwyr i ymgymryd â thasg mor enfawr.

Daethpwyd â 175 o nafis draw o Iwerddon (term a ddefnyddiwyd i ddisgrifio llafurwyr corfforol oedd yn gweithio ar brosiectau peirianneg sifil mawr) er mwyn creu swmp y gweithlu. Fodd bynnag, roedd yr amodau yn anodd. Roedd y daith i'r safle yn arw a serth a chan fod y safle ar uchder o 1,200 troedfedd, roedd y tywydd yn gwneud yr amodau gwaith yn anodd. Gwrthododd y nafis o Iwerddon weithio yna ac fe adawon nhw.

Ym 1916, cafodd tua 150-200 o wrthwynebwyr cydwybodol eu trosglwyddo o garchardai amrywiol yn Lloegr er mwyn cwblhau'r gwaith. Roedden nhw'n byw ar y safle mewn dau gwt; roedd hefyd cwt coginio, cwt golchi dillad, siop a chwt bychan oedd yn gweithredu fel ysbyty.

Cafodd y gweithfeydd yn Llyn y Fan Fach eu gorffen yn y pendraw ym 1919 gan ddarparu dŵr i ardal wledig Llanelli am nifer o ddegawdau wedi hynny.

Cadw
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog Brecon Beacons Trust
ymddiriedolaeth archaeolegol DYFED archaeological trust
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog Brecon Beacons National Park
Cymru dros Heddwch Wales for Peace